# CRYNODEB PROSIECT SIARC

Ebrill 2023- Mawrth 2026

## GAIR AMDANOM NI

Mae Great Eggcase Hunt y Shark Trust wedi bod yn sicrhau fod aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn cadwraeth siarcod ers 2003. Drwy gofnodi casys wyau siarcod a morgathod (a elwir hefyd yn byrsiau môr-forwyn) sy'n cael eu golchi i'r lan ar draethau, neu'r rhai a welir yn datblygu o dan y dŵr, mae'n bosibl inni gael gwell dealltwriaeth o bresenoldeb ac amrywiaeth rhywogaethau ofiparol (sy'n dodwy wyau) yn nyfroedd Prydain.

Mae Prosiect SIARC (Siarcod yn Ysbrydoli Gweithredu ac Ymchwil gyda Chymunedau) yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n gweithredu ledled Cymru, ac yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned ac ymchwil mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Lansiwyd Prosiect SIARC ym mis Tachwedd 2021, ac mae bellach wedi cwblhau ei ail gyfnod (sy'n rhedeg o Ebrill 2023 i Fawrth 2026)! Fel rhan o Brosiect SIARC, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) yn trefnu helfeydd casys wyau ledled Gogledd Cymru, gyda'r holl ddata'n cael ei anfon i Great Eggcase Hunt y Shark Trust. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi hyfforddi nifer o Hyrwyddwyr Casys Wyau sy'n cynnal eu helfeydd casys wyau eu hunain yn rheolaidd ac yn rhoi gwybod am eu canfyddiadau o ddarn o draeth y maen nhw wedi'i fabwysiadu. Pa un ai ydych chi'n mynd i ddigwyddiad sydd wedi'i drefnu, neu'n mynd am dro ar eich pen eich hun, rydym yn annog cymunedau glan môr i gofnodi unrhyw ganfyddiadau (gyda lluniau!) a'u hanfon i'r Great Eggcase Hunt, gan ddefnyddio naill ai'r Hwb Cofnodi ar-lein (sydd ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg) neu ap gwyddoniaeth dinasyddion Shark Trust.

Ap a Ffurflen Gofnodi

**Dyma beth mae cyfranogwyr Prosiect SIARC wedi'i ganfod ar draws yr ardal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf...**


## YSTADEGAU ALLWEDDOL


Cyfanswm nifer yr **HELFEYDD CASYS WYAU** **371**

**1,055** **O GYFRANOGWYR** mewn digwyddiadau dan arweiniad NWWT

**8 O RYWOGAETHAU WEDI'U COFNODI**

Cyfanswm nifer y **CASYS WYAU A GOFNODWYD: 37,283**



Dilyswyd: 95%

Heb eu dilysu: 5%

## Y COFNODWYR GORAU

Mae staff NWWT a Phrosiect SIARC yn cynnal llawer o helfeydd casys wyau mewn grwpiau, ac yn cyfuno'r casys mae'r mynychwyr yn eu canfod, fel bod eu cyfraniadau yn cyfrif am tua 18% o'r casys wyau a gyflwynir ar ran Prosiect SIARC ac yn gynrychioliadol o grŵp mwy o bobl.

Y tu allan i'r digwyddiadau hyn sy'n cael eu trefnu, y 5 cofnodwr gorau ar gyfer Prosiect SIARC ers 2023 oedd:

**5 UCHAF**

1. Elaine - **17,683**
2. Endeavour Society - **4,362**
3. Teri a Bob - **2,353**
4. Lisa - **1,332**
5. Charles a Clare - **1,119**



Casys wyau'r Morgi brych a gofnodwyd gan rai o'n Hyrwyddwyr Casys wyau hyfforddedig
Teri a Bob | GEH


**WWW.EGGCASE.ORG**

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol dan arweiniad ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Studio BlueGreen, Moondance Foundation, Fishmongers' Companies Charitable Trust a Save Our Seas Foundation.

# LLEOLIADAU CASYS WYAU

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2026, cofnodwyd 15,880 o gasys wyau mewn ychydig mwy na 75 o leoliadau o amgylch Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae maint y siartiau cylch yn gyfrannol â nifer y casys wyau a gofnodwyd o'r ardal honno.






Cas wyau Morgi brych wedi'u cuddio ymhlith y gwymon - gall casys wyau fod yn anodd eu gweld!
Paul Magill



Chwilio am gasys wyau hyd yn oed yn yr eira - Y fath ymroddiad! A helfa wych!
Teri a Bob

## ELENI


Ebrill 2025 - Mawrth 2026

Cyfanswm nifer yr **HELFEYDD CASYS WYAU** **123**

**186** **O GEFNOGWYR** mewn digwyddiadau dan arweiniad NWWT

**8** **O RYWOGAETHAU WEDI'U COFNODI**

Cyfanswm nifer y **CASYS WYAU A GOFNODWYD: 15,880**







## Y COFNODWYR GORAU

Yn 2025-2026, roedd digwyddiadau a drefnwyd gan staff NWWT a Phrosiect SIARC yn cyfrif am tua 5% o'r casys wyau a adroddwyd i Brosiect SIARC.

Ar wahân i'r digwyddiadau hyn, y 5 cofnodwr gorau ar gyfer Prosiect SIARC yn y cyfnod hwn oedd:

1. Elaine - **10,495**
2. Lisa - **1,332**
3. Arwen - **1,051**
4. Teri a Bob - **1,024**
5. Charles a Clare - **422**



Casys wyau wedi'u labelu'n berffaith - gan gynnwys ambell gas wyau Morgath lygadog!
Lisa Horswill

**WWW.EGGCASE.ORG**

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol dan arweiniad ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Studio BlueGreen, Moondance Foundation, Fishmongers' Companies Charitable Trust a Save Our Seas Foundation.

## DIGWYDDIAD HYRWYDDWYR MORFA BYCHAN

Ym mis Mawrth 2026, daeth staff Prosiect SIARC (o Shark Trust, Prifysgol Abertawe, NWWT, Cyfoeth Naturiol Cymru a ZSL) a llawer o Hyrwyddwyr Casys Wyau Prosiect SIARC ynghyd ym Morfa Bychan ar gyfer digwyddiad dathlu.

Yn ystod y bore cafwyd cyflwyniadau yn ymdrin ag ystadegau'r casys wyau a gofnodwyd i Brosiect SIARC, cyfle i roi cynnig ar brofiad ystafell ddosbarth a thraeth Helfa Casys Wyau Realiti Rhithwir (a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe), a diweddariadau o becynnau gwaith eraill Prosiect SIARC.

Yna roedd hi'n amser mynd i'r traeth! Daliodd y tywydd yn braf ac ar ôl treulio awr neu fwy yn yr haul bendigedig fe ddaethom o hyd i: 65 cas wyau Morgi brych, 47 cas wyau Morgath fannog, 30 cas wyau Morgath styds a 23 cas wyau Morgi lleiaf.

Ar ôl didoli ac adnabod ein casys wyau, aethom yn ôl i'r clwb golff am ychydig mwy o gyflwyniadau, gan gynnwys y camau nesaf ar gyfer y Great Eggcase Hunt a Phrosiect SIARC.



Staff prosiect SIARC a Hyrwyddwyr Casys wyau yn nigwyddiad Morfa Bychan 2026.
Selina Copestake | NWWT

## CANFYDDIADAU ANARFEROL

Fel arfer yng Ngogledd Cymru rydych chi'n dod o hyd i gasys wyau pedair rhywogaeth: Morgath styds, Morgi brych, Morgi lleiaf a'r Forgath fannog. Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi gweld newid yn y casys wyau sy'n cael eu hadrodd i Brosiect SIARC - casys wyau'r Morgi brych oedd fwyaf cyffredin, ond erbyn hyn ceir mwy o gasys wyau'r Forgath styds. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei bwysoli i raddau helaeth gan ymdrechion anhygoel rhai o'n Hyrwyddwyr Casys Wyau ar arfordir Talacre, sy'n cofnodi niferoedd uchel o gasys wyau Morgath styds. Mabwysiadwch eich darn lleol o draeth a helpwch ni i ganfod patrymau a thueddiadau dros amser!

Yn ogystal â'r pedair prif rywogaeth, gellir dod o hyd i gasys wyau rhywogaethau eraill. Eleni rhai o'r casys wyau mwyaf anarferol a gofnodwyd fel rhan o Brosiect SIARC oedd: 9 cas wyau Morgath lygadog, 6 cas wyau Morgath felen, 2 gas wyau Morgath lygaid bach a chas wyau Morgath drwynfain arall!

Mae cyfle bob amser i ddod o hyd i gasys wyau anarferol, felly cadwch eich llygaid ar agor!



Tri o'r 'Prif Bedwar' o Ogledd Cymru: Morgath styds, Morgath fannog a'r Morgi lleiaf
Dawn Thomas | NWWT



Eleni daethom o hyd i gas wyau Morgath drwynfain arall! Adroddwyd o Lanaber.
Luke Hassett

## BETH NESAF?

Cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol a **gwefan Prosiect SIARC** i gael y diweddaraf am y prosiect. Bydd cam tri yn dechrau'n fuan iawn, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld beth fydd y blynyddoedd nesaf yn ei gynnig!

Yn y cyfamser, daliwch ati i roi gwybod am eich casys wyau (gan roi 'SIARC' fel y sefydliad) a chadwch lygad yn agored am unrhyw helfeydd casys wyau sydd wedi'u trefnu - neu trefnwch un eich hun!

Os ydych chi eisiau cymryd mwy o ran, gallwch roi eich sgiliau adnabod ar waith gan ddefnyddio Platfform Dilysu Cymunedol Shark Trust (sy'n dod yn fuan), neu gallwch chi edrych ar yr holl gasys wyau a ddarganfuwyd (gan gynnwys y rhai o SIARC) ar **Ddangosfwrdd Canlyniadau** newydd sbon yr Ymddiriedolaeth.



Amrywiaeth arbennig o gasys wyau, gan gynnwys y Forgath fannog, y Morgi lleiaf, y Morgi brych, y Forgath styds, a'r Forgath lygaid bach!
Dawn Thomas | NWWT

## PROSIECT SIARC X ADNODDAU GEH

Edrychwch ar **daith ryngweithiol y Great Eggcase Hunt** - mae'r daith ar-lein 360 hon yn rhoi cipolwg ddwyieithog ar fyd casys wyau, a hynny o gyfforddusrwydd eich cartref! Edrychwch er mwyn dod o hyd i wybodaeth am adnabod rhywogaethau, awgrymiadau a syniadau, canllawiau hyfforddi, cwisiau, a dolenni i waith arall Prosiect SIARC!

Mae adnoddau allweddol eraill a ddatblygwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cynnwys: Canllaw Adnabod Casys Wyau, Allwedd Adnabod Casys Wyau, y fethodoleg safonol ar gyfer hela casys wyau a'r llyfr gwaith casys wyau. Gweler **Tudalen Adnoddau Prosiect SIARC** am ragor o wybodaeth!

## CYMERWCH RAN

Er mwyn cael gwybod mwy am ddigwyddiadau Great Eggcase Hunt yng Ngogledd Cymru, ewch draw i **dudalen ddigwyddiadau Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru**.

Os oes gennych ddiddordeb mewn hyfforddi i ddod yn Hyrwyddwr Casys Wyau Prosiect SIARC a mabwysiadu eich darn eich hun o draeth, cysylltwch â NWWT yn **info@northwaleswildlifetrust.org.uk**

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Brosiect SIARC a ffyrdd eraill o gymryd rhan, gweler prif **wefan Prosiect SIARC.**

Er mwyn cael gwybod mwy am Great Eggcase Hunt y Shark Trust yng ngweddill y DU ac o amgylch y byd, ewch i **eggcase.org.**

**WWW.EGGCASE.ORG**

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol dan arweiniad ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Studio BlueGreen, Moondance Foundation, Fishmongers' Companies Charitable Trust a Save Our Seas Foundation.